Cyngor Cymuned Llaneilian (274)
Cofnodion cyfarfod nos Fawrth, Mawrth 1af, 2016 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

Presennol: Dafydd Griffiths, Thomas D Jones, John Griffiths, Elfyn Hughes, Gordon Hayes, Carol Whitaker, Helen Hughes, Glenys Jones, Hefina Williams

Ymddiheuriadau: Cyng Wil Hughes, Cyng Richard Jones

1 Croeso
Cadeiriwyd y cyfarfod gan Dafydd Griffiths a chroesawyd pawb i'r cyfarfod.

2 Datgan Diddordeb
Neb.

3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod yn gywir; Cynnig John Griffiths, eilio TD Jones.

4 Materion yn Codi

4.1 Cwn Swnllyd
Ni chafwyd diweddariad swyddogol, ond mae si yn y gymuned bod cais cynllunio ar y gweill er mwyn cael cadw cwn mewn niferoedd ar y safle. Roedd yr aelodau yn bryderus nad oedd trigolion yn ardal yn cael cefnogaeth y Cyngor Sir i daclo'r broblem dan sylw. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu a Cyng Aled Jones am ddiweddariad ac am enw'r swyddog sy'n arwain ar yr achos. CET

4.2 Llithrfa Llaneilian
Cadarnhawyd bod y Clerc wedi cysylltu ag Iwan Huws i ofyn am ddiweddariad yn dilyn y cyfarfod diwethaf ac am gadarnhad bod yr hyn oedd wedi ei gytuno am gymryd lle. Nid oedd ymateb hyd yma.

4.3 Cae Chwarae
Mae'r gwaith i'r offer coed a swing newydd i'w gosod cyn ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae Playquest wedi cytuno gostwng pris y swing yn unol a'r arian grant oedd yn weddill. Bydd eu gweithwyr yn cwblhau'r gwaith fel un prosiect.

4.4 Tai Cymdeithasol
Nid oes ymateb gan y Cyngor Sir i'r ebost anfonwyd atynt i'r adran dai 12/2/2016.

4.5 Torri Gwair
Mae Richard Edwards wedi cytuno torri o amgylch y cofgolofn (£17 y tro) ac Maes Llwyfo (£45 y tro). Mae'r gwaith yma i'w ychwanegu i'r gytundeb cyfredol.

4.6 Cronfa JG Jones
Cadarnhawyd bod siec wedi ei anfon at y Prifathro ac fe ddarllennwyd llythyr o ddiolch gan yr Ysgol am yr arian.

4.7 Golau'r Neuadd
Cafwyd wybod bod Alan Phillips wedi bod mewn cysylltiad ag Mr Patterson ynglyn a chwblhau'r gwaith i'r Neuadd. Diolchwyd i'r Clerc am anfon llythyr ato i'w atgoffa.

5 Cynllunio

5.1 Roedd dau gais i'w trafod – CET
1 – Twr Llachiad (24C330) – dim sylw
2 – Plot 2 Maes y Groes (24C247G) – dim sylw

Nodwyd siom nad oedd cynlluniau diwygiedig a cywir wedi eu hanfon ymlaen gan y Cyngor Sir ar gyfer Dublin/Kingston (24C254B).

5.2 Penderfyniadau - Ni chafwyd wybod am unrhyw benderfyniadau gan y Cyngor Sir.

6 Materion Ariannol

6.1 Taliadau – cymeradwywyd y taliadau canlynol –
£103 Henaduriaeth Mon

£68.80 Ysgol Gynradd Penysarn (Cronfa Goffa JG Jones)
£934.20 Playquest (blaen daliad)

7 Ymgynghoriad Wylfa Newydd

Mae angen ymateb i ymgynghoriad diweddaraf Horizon erbyn 24/3/2016. Dosbarthiwyd copiau o'r llyfryn ymateb i'r holl aelodau wrth bwysleisio pa mor bwysig oedd i ymateb fel Cyngor ac unigolion yn y gymuned. CET

Aethpwyd drwy'r llyfryn ymateb ac fe drafodwyd nifer o bryderon oedd gan yr aelodau megis, yr effaith ar iaith, pwysau ychwanegol ar adnoddau cymunedol (doctoriaid, ysbyty, deintyddion, ysgolion, heddlu ayyb). Nodwyd bod hefyd angen codi ymwybyddiaeth i'r cwmni eu bod yn costio oriau o waith gweinyddol i'r cymunedau lleol.

Trafodwyd y posibilrwydd o ddatblygu gwersyll a thai yn ardal Amlwch, cytuno nad oedd problem gyda thai os oeddent ar gael yn dai cymdeithasol wedi i'r gwaith adeiladu yn Wylfa ddod i ben. Roedd pryderon am ddiffyg seilwaith ac adnoddau cymunedol am nifer fawr o dai. Cytuno y byddai gwell cael gwersyll yn nes at safle'r datblygiad e.e. Safle Rhosgoch, ble byddai posib cyflogi pobl lleol i gynnal a chadw'r datblygiad dros gyfnod o amser.

8 Ymgynghoriad Safle Sipsiwn

Trafodwyd y ddogfen ymgynghori a'r safleoedd oedd wedi eu hadnabod gan y Cyngor Sir. Cytuno mai safle Gaerwen fyddai'r gorau ar gyfer y safle parhaol a hynnu o ystyried diogelwch y safle i deuluoedd a'r phellter o adnoddau cymunedol. Nid oedd yr aelodau am wneud sylw ar y safleoedd dros dro gan eu bod yn agos at garetrefi a busnesau oedd eisioes wedi ymgaretrefu yno. Byddai lleoli safle o'r fath yn ddibynnol ar farn a sylwadau rheini sydd agosaf atynt. CET

9 Ymgynghoriad Treth Cyngor Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag

Trafodwyd y ddogfen ymgynghori a chwblhawyd yr holiadur. Cytuno dylid godi mwy o drethi ar ail gartrefi a thai gwag, gobeithir y byddai hyn y gymhelliant i beidio a chael tai gweigion a chynyddu y nifer o dai sydd ar gael i bobl lleol. CET

10 Gohebiaeth

10.1 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd – daw cofrestr o newidiadau arfaethiedig ar gyfer sylwadau ac ymgynghori. Bydd angen ymateb os am wneud hynnu erbyn Ebrill 13, 2016.

11 Unrhyw Fater Arall

11.1 Safleoedd Bws – Nodwyd bod y ddau safle bws plastig angen eu golchi. Cytuno gofyn i lanhawr ffenestri wneud y gwaith. CET

11.2 Banciau Ailgylchu – Nodwyd bod y biniau ailgylchu ger y Bedol yn gorlifo ac angen eu gwagio. CET

11.3 Y Bedol – Nodwyd er gwybodaeth bod yr adeilad i'w werthu mewn arwerthiant 25/3/2016.

11.4 Diwrnod Agored – Nodwyd bod diwrnod agored i'w gynnal yn y Neuadd ar gyfer y prosiect Rhyfel Byd Cyntaf Ebrill 9, 2016.

11.5 Grwp Ieuenctid – Cafwyd wybod bydd aelodau o'r grwp yn ymweld ac Ypres yn fuan, a bod rhai wedi eu dewis i osod torch ger y Menin Gate.

11.6 Noson Codi Arian – Bydd noson 'meic agored' i godi arian i'r Neuadd yn cymryd lle yn y pythefnos nesaf – bydd posteri i'w dosbarthu yn fuan.

11.7 Newid Enwau Tai – Nodwyd pryder bod enwau tai hanesyddol yn cael eu newid i enwau Saesneg a rheini heb gysylltiad a'r gymuned lleol. Mae'r mater wedi ei godi yn y gorffennol. Cytuno gwahodd Paul Roberts, Rheolwr Stad Llysdulas i'r cyfarfod nesaf. CET

11.8 Carafan ger Ty Moel – Nodwyd bod cyflwr y garafan yn dirywio ac ei fod yn fler iawn ar y tirlun. Cytuno ysgrifennu at yr adran gynllunio eto. CET

11.9 Loriau Mawr – cytuno cysylltu a'r adran Briffyrdd i ofyn am arwyddion 'peidiwch a dilyn y sat-nav' wedi i loriau mawr geisio teithio ar hyd lonydd cul Mynydd Eilian. Mar arwyddion 'anaddas i gerbydau mawr' eisioes wedi eu harddangos. CET

11.10 Casglu Gwastraff – Nodwyd pryder yr aelodau bod y Cyngor Sir yn newid gasgliadau sbwriel i unwaith pob tair wythnos. Nodwyd hefyd pryderon ynglyn a'r casgliadau ailgylchu ac nad oedd y gweithwyr yn cymryd gofal wrth wagio'r bocsus a bod sbwriel yn mynd i pobman gan adael yr ardal yn fler heb fod angen. CET

Roedd pryder am beidio'r gwasanaeth casglu eitemau mawr am ddim. Mae llygru a 'dympio' eisioes yn broblem, ac fe fydd hyn yn gwaethygu. Byddai yn rhatach cynnig y gwasanaeth yma na'r holl waith clirio fydd ei angen o ganlyniad i ddiffyg y gwasanaeth. Cytyno cysylltu i godi ymwybyddiaeth o bryderon y Cyngor ynglyn a'r gwasanaethau gwastraff.

11.11 Canolfan Hamdden Amlwch – cytuno ysgrifennu at y Rheolwr i godi ymwybyddiaeth o bryderon defnyddwyr y safle MUGA ynglyn a'r nifer o eitemau sbwriel sydd yn casglu yno. CET

11.12 Cyngor Sir Ynys Mon – Nodwyd drwy gydol y cyfarfod bod diffyg ymateb a diffyg gweithredu gan swyddogion y Cyngor Sir ar nifer o faterion, a hynnu heb fod angen. Cytuno dylid ysgrifennu at y Prif Weithredwr (gyda chopi i'r tri Cynghorydd lleol) i godi ymwybyddiaeth o'r broblem ac i'w atgoffa bod y Cyngor Cymuned yn cynrychioli 'r gymuned gyfan. CET

11.13 Mrs Mair Morris – Cydymdeimlwyd a theulu Mrs Morris yn dilyn ei marwolaeth. Mae Mrs Morris wedi bod yn hael iawn ac yn gefnogol iawn o waith y Cyngor Cymuned dros y blynyddoedd. Bydd ei angladd yn Eglwys Eilian 3/3/16 am 1 o'r gloch. Fe gadarnhaodd y Clerc ei bod eisioes wedi anfon cerdyn i'r teulu ar ran y Cyngor.

12 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – Nos Fawrth 12/4/2016

Fe ddiolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn bresennol. Bu'r cyfarfod orffen am 8.45 o'r gloch.